**Rhif: WG28794**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Crynodeb o'r ymatebion i'r Ymgynghoriad ynghylch diwygio ffioedd trwyddedu morol a

Ionawr 2017

OGL © Hawlraint y Goron ISBN digidol 978-1-4734-8599-0

Cynnwys:

1. Cefndir

2. Crynodeb o'r Ymatebion

3. Themâu

4. Y camau nesaf

Atodiadau:

1: Rhestr o ymgyngoreion

2: Rhestr o'r holl ymatebwyr

**Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch diwygio Ffioedd Trwyddedu Morol a Thaliadau Cysylltiedig yng Nghymru.**

## 1. Cefndir

1.1 Yn sgil Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, lansiodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygio ffioedd trwyddedu morol a thaliadau cysylltiedig, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r gyfundrefn Asesu Effaith Amgylcheddol (AEA) morol, yng Nghymru.

1.2 Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 5 Medi 2016. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 28 Tachwedd 2016 ar ôl cyfnod ymgynghori cyhoeddus ffurfiol o 12 wythnos.

1.3 Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan Llywodraeth Cymru a dosbarthwyd manylion i randdeiliaid oedd â diddordeb mewn trwyddedu morol a'r gyfundrefn AEA morol yng Nghymru.

1.4 Sefydlwyd system trwyddedu morol y DU drwy Ran 4 o Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009 (DMMA) ac fe'i hategir gan gyfres o is-ddeddfwriaeth yng Nghymru. Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod trwyddedu o dan Ran 4 o DMMA ac ym mis Ebrill 2013 dirprwywyd y mwyafrif o'u swyddogaethau fel awdurdod trwyddedu i Cyfoeth Naturiol Cymru drwy Orchymyn Trwyddedu Morol (Dirprwyo Swyddogaethau) (Cymru) 2013.

1.5 Mae angen trwydded forol ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau yn nyfroedd Cymru cyn y gellir ymgymryd â gwaith. Y trwyddedau mwyaf cyffredin yw'r rhai sy'n ymwneud â gwaddodion sylweddau neu wrthrychau yn y môr, neu ar neu o dan wely'r môr; symud sylweddau o wely'r môr; prosiectau adeiladu yn y môr neu dros y môr, neu ar neu o dan wely'r môr; a phob math o garthu a chodi deunydd (gan gynnwys agregau). Gall graddfa'r gwaith morol amrywio'n fawr.

Enghreifftiau o weithgareddau y mae angen trwydded forol ar eu cyfer yw:

- carthu mordwyol a gwaredu deunydd a garthwyd yn y môr
- codi agregau
- adeiladu prosiectau ynni adnewyddadwy ar y môr
- tynnu gwaddodion at ddibenion samplu
- gosod tyrbinau llanw neu dyrbinau gwynt
- gwaith adeiladu ar yr arfordir (morgloddiau, glanfeydd, estyniadau i borthladdoedd/harbyrau ac ati.)

1.6 Nid oedd y gyfundrefn ffioedd a thaliadau ar gyfer trwyddedu morol yng Nghymru yn addas at y diben. Roedd wedi dyddio ac nid oedd yn caniatáu i Cyfoeth Naturiol Cymru adennill costau ar gyfer rhai gwasanaethau penodol a ddarparwyd ganddo. Nid oedd y gwasanaeth a ddarparwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn gynaliadwy a phe na datryswyd y bylchau o ran pwerau i godi ffioedd, mae'n bosibl na fyddai'r sefydliad wedi gallu parhau i gynnig gwasanaeth cystal i gwsmeriaid yng Nghymru.

1.7 Rhoddodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 bwerau newydd i Lywodraeth Cymru fel yr awdurdod trwyddedu sefydlu cyfundrefn codi taliadau fwy cynhwysfawr a gwell. Roedd y pwerau newydd hyn yn ategu'r pwerau presennol ar gyfer pennu ffioedd a chodi taliadau o dan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009.

1.8 Nod cyffredinol yr adolygiad o ffioedd yw cyflwyno cyfundrefn gadarn, gymesur, deg a thryloyw sy'n addas at y diben ar gyfer codi ffioedd am gostau sy'n gysylltiedig â thrwyddedu morol a'r gyfundrefn AEA morol yng Nghymru.

1.9 Nododd yr ymgynghoriad gynigion ar gyfer model ffioedd newydd a'r ffioedd a'r taliadau i'w codi o dan y model hwnnw. Bydd y ffioedd hyn yn gymwys pan fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu fel yr awdurdod trwyddedu ar gyfer trwyddedu morol a'r awdurdod priodol ar gyfer y gyfundrefn AEA yn nyfroedd Cymru. Y nod yw y caiff y ffioedd newydd eu gweithredu ym mis Ebrill 2017, yn amodol ar y broses gyfreithiol i gyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol.

1.10 Yn unol â chanllawiau Trysorlys EM a Rheoli Arian Cyhoeddus yng Nghymru, polisi Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yw y dylid pennu ffioedd a thaliadau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir i adennill costau'n llawn. Bwriedir i'r dull gweithredu hwn sicrhau na fydd y llywodraeth yn elwa ar draul defnyddwyr nac yn mynd i wariant y mae trethdalwyr yn ei gymorthdalu.

1.11 Yn ystod y cyfnod ymgynghori, cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ddigwyddiad ym mis Hydref 2016 yn swyddfa Llywodraeth Cymru yng Nghaerdydd er mwyn cyflwyno'r cynigion yn yr ymgynghoriad i randdeiliaid. Rhoddodd hyn gyfle uniongyrchol i unigolion sgwrsio â swyddogion Llywodraeth Cymru ac aelodau Gwasanaeth Trwyddedu Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn iddynt egluro'r newidiadau arfaethedig ac ateb ymholiadau. Roedd yr adborth a gafwyd am y digwyddiad a'r cynigion yn ystod y cam hwn yn gadarnhaol.

Derbyniwyd y rhan fwyaf o'r sylwadau a gafwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad drwy gyfeiriad e-bost trwyddedu morol yn: marineandfisherieslegislation@cymru.gsi.gov.uk

## 2. Crynodeb o'r ymatebion

2.1 Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 28 Tachwedd 2016. Derbyniwyd tri ymateb ar ôl y dyddiad hwn ac fe'u cynhwyswyd yn y cyfanswm.

2.2 Cafwyd cyfanswm o 20 o ymatebion i'r ymgynghoriad.

2.3 O'r 20 o ymatebion, roedd yr ymatebion gan randdeiliaid fesul sector fel a ganlyn:

| |
|---|
| Awdurdodau Lleol<br>Cafwyd 4 allan o 20 (20%) |
| Cynrychiolwyr y diwydiant / ymgeiswyr<br>Cafwyd 14 allan o 20 (70%) |
| Rhanddeiliaid eraill<br>Cafwyd 2 allan o 20 (10%) gan randdeiliaid oedd â diddordeb mewn trwyddedu morol a'r gyfundrefn AEA morol yng Nghymru. |

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r ymatebion i bob un o gwestiynau'r ymgynghoriad:

| Cwestiwn | Ydw/Oes | Nac ydw/Nac oes | Gadawyd yn Wag | Sylwadau a Wnaed |
|---|---|---|---|---|
| Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â Chytundebau Lefel Gwasanaeth arfaethedig 2017? | **5** | **1** | **14** | **8** |
| Cwestiwn 2: A ydych yn cytuno â'n hasesiad o'r costau a'r manteision tebygol a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft? | **5** | **2** | **13** | **8** |
| Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno mai Opsiwn B (y model haenog) a ddylai gael ei gyflwyno fel y strwythur ffioedd a thaliadau newydd yng Nghymru? Os 'Na', pa fodel rydych yn ei ffafrio, a pham? | **5** | **3** | **12** | **6** |
| Cwestiwn 4: A oes unrhyw ffactorau eraill y dylid eu hystyried wrth benderfynu ar lefel y ffioedd? | **5** | **0** | **15** | **6** |
| Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer y gwasanaethau cyn gwneud cais? Pa wasanaethau y rhagwelwch y byddwch yn eu defnyddio? A oes unrhyw wasanaethau eraill cyn gwneud cais yr hoffech eu gweld yn cael eu darparu? | **4** | **2** | **14** | **7** |
| Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno â'r gweithgareddau a gynigir o dan Fand 1? Os nad ydych yn cytuno, a allwch roi tystiolaeth i ategu argymhellion? | **5** | **2** | **13** | **6** |
| Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer y pecynnau gwaith ôl-drwyddedu uchod? Os nad ydych yn cytuno, a allwch roi tystiolaeth i ategu argymhellion? | **5** | **2** | **13** | **5** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno â'r cynigion ar gyfer ymdrin ag apelau hysbysiadau?<br>Os nad ydych yn cytuno, a allwch roi tystiolaeth i ategu argymhellion? | **4** | **0** | **16** | **1** |
| Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'n dull o rannu a darparu data,<br>pryd bynnag y bo modd? A oes gennych unrhyw sylwadau ar y cam hwn ynghylch pa drefniadau y dylem eu hystyried e.e. a ddylai cyhoeddi data fod yn orfodol neu'n wirfoddol? | **6** | **1** | **11** | **8** |
| Cwestiwn 10: Pa wybodaeth rydych am i ni ei hystyried er mwyn llywio adolygiad o esemptiadau trwyddedu morol yng Nghymru? | **dd/g** | **dd/g** | **9** | **11** |
| Cwestiwn 11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol drwy'r ddogfen hon. Os oes unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, mae croeso ichi fanteisio ar y cyfle i'w codi. | **dd/g** | **dd/g** | **11** | **9** |

2.4 Ni wnaeth unrhyw ymatebydd gais i'w fanylion cyswllt gael eu cadw'n gyfrinachol. Felly, os caiff Llywodraeth Cymru gais i gyhoeddi'r ymatebion yn llawn, caiff enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb hefyd eu cyhoeddi gyda'r ymateb perthnasol.

## 3. Themâu

3.1 Nodwyd y themâu canlynol a'r sylwadau cysylltiedig o'r ymatebion a gafwyd (nid yw'r sylwadau y tynnir sylw atynt yn gynhwysfawr):

Gwelliant Parhaus

- Cefnogaeth o blaid symleiddio ac arbedion, yn enwedig ar gyfer gweithgareddau risg isel er mwyn sicrhau bod costau ac amserlenni yn gymesur a bod costau mor isel â phosibl ac amserlenni mor fyr â phosibl;
- Cefnogaeth o blaid gwelliant parhaus (fel y nodwyd ym mharagraff 10 o'r ddogfen ymgynghori), lleihau beichiau gweinyddol, angen gwell canllawiau er mwyn lleihau'r angen am y cam cyn ymgeisio ac osgoi costau uchel; cais am arweiniad a chanllawiau er mwyn sicrhau ansawdd ceisiadau;
- Os bydd ffioedd yn uwch yng Nghymru, disgwylir gwell perfformiad - dylid ystyried gwelliannau eraill yn ogystal â chyflwyno ffioedd;
- Mae grwpiau sy'n cynrychioli'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill yn fwy na pharod i weithio gyda Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i wella arbedion;

Darparu gwasanaethau

- Awgrymwyd y dylid cyflwyno trefniadau i randdeiliaid graffu ar berfformiad yn erbyn DPAau - o bosibl drwy Grŵp Cynghori Strategol Cymru ar Faterion Morol (WMSAG);
- Nodwyd nad oes unrhyw dryloywder nac atebolrwydd o ran ansawdd gwasanaethau ac nad oes unrhyw system ar gyfer nodi meysydd sy'n peri pryder. Y teimlad yw bod angen monitro'r gwasanaeth a ddarperir a chyflwyno adroddiadau ar y gwasanaeth hwnnw, gan gynnwys trefniadau llywodraethu; gwnaed cais i sicrhau bod adroddiadau blynyddol ar gael i'r cyhoedd;
- Gwnaed cais i bennu amserlenni ar gyfer Prosiectau Seilwaith o Bwys Cenedlaethol, gyda mesurau atebolrwydd, adrodd a pherfformiad clir er mwyn ymdrin â sefyllfaoedd lle roedd prosiectau o'r fath yn cael eu gweithredu'n wael;
- Gwnaed sylwadau am ansawdd y gwasanaeth (gan yr awdurdod trwyddedu a chyngor gwyddonol allanol) a'r system ar gyfer herio ansawdd y gwasanaethau a gafwyd;
- Rhaid bod gan yr Awdurdod Trwyddedu y gallu i ymateb i

newidiadau o ran llwyth gwaith er mwyn sicrhau na fydd ymgeiswyr o dan anfantais (er enghraifft, gan fod prosiect mawr Band 3 wedi cael ei gyflwyno);

- Mae cwsmeriaid am weld bod ceisiadau am gyngor gwyddonol allanol gan yr awdurdod trwyddedu wedi'u targedu'n well ac yn fwy uniongyrchol yn hytrach na chyffredinol, o ystyried y costau yr eir iddynt gan ymgeiswyr.

Costau ac elfennau penodol o'r model Ffioedd

- Mae rhai ymatebwyr o'r farn bod y gost ar gyfer Band 1 yn rhy uchel; a bod amserlenni Band 1 yn rhy hir, os nad oes angen cyngor allanol;
- Amserlenni ceisiadau Band 2 - cafwyd sylwadau bod yr amserlenni hyn yn hirach nag Awdurdodau Trwyddedu eraill; ac heblaw am weithgareddau risg isel, nad oedd unrhyw welliant o ran amserlenni;
- Band 3 - mae rhai ymatebwyr o'r farn nad yw'r diffyg amserlenni ar gyfer ceisiadau yn dderbyniol, felly hefyd y diffyg meincnod ar gyfer perfformiad;
- Nododd un ymatebwr y gallai fod cynnydd sylweddol mewn costau am waith ar raddfa fach, megis carthu arferol.  Holwyd a ellid cyflwyno terfynau neu gapiau ar gyfer ffioedd, neu a oedd modd y gallai costau ceisiadau Band 3 gymorthdalu ceisiadau Band 1;
- Ystyriwyd nad oedd pwyntiau samplu gwaddodion yn glir na'r costau amdanynt; yr awgrym oedd y dylid gallu eu lleihau;
- Nododd rhai ymatebion fod angen i gyngor cyn ymgeisio fod yn gyfrwymol, oni ellir darparu tystiolaeth newydd wirioneddol i gyfiawnhau pam bod sefyllfa wedi newid;
- Gwnaed ceisiadau i ystyried trefniadau trosiannol ar gyfer trwyddedau mwynau morol, yn enwedig ar gyfer y rheini sy'n talu ffioedd monitro ar hyn o bryd;
- O ran monitro'r gwasanaeth hwn a chodi taliadau amdano, nododd ymatebwyr fod yn rhaid i waith monitro fod yn gymesur ac yn angenrheidiol ac y dylid cynnal adolygiad a rhoi proses feincnodi ar waith mewn perthynas â gofynion;

Rhannu data

- Roedd y prif faterion a godwyd mewn perthynas â rhannu data yn canolbwyntio ar sut y dylid casglu data; Ceir cefnogaeth o blaid rhannu data yn wirfoddol ond roedd pryderon ynghylch sensitifrwydd masnachol a nodwyd na ddylid dyblygu canolfannau data;

Adolygiad o Esemptiadau

- Cynigiwyd awgrymiadau defnyddiol a rhoddwyd tystiolaeth ar esemptiadau posibl; roedd rhai yn gofyn am eglurder ac arweiniad mewn perthynas â'r broses drwyddedu a chwmpas y system drwyddedu; awgrymwyd y dylai esemptiadau fod yn gysylltiedig ag effaith (gallai cronfa ddata Natural England fod yn ddefnyddiol yn hyn o beth); a gwnaed cais am esemptiad ar gyfer samplau cipolwg;

<u>Asesiad Effaith Rheoleiddiol Drafft</u>

- Cafwyd cefnogaeth gyffredinol o blaid costau Asesiadau Effaith Rheoleiddiol drafft (mewn perthynas ag ymgeiswyr, nid rhanddeiliad neu ymgyngoreion eraill) ond roedd pryder mewn rhai achosion bod y ffioedd yn rhy uchel;

<u>Cyfathrebu ynghylch newidiadau</u>

- Gofynnodd ymatebion am sicrwydd y ceid cyfathrebu mewn da bryd ynghylch newidiadau ac y byddai'r cyfathrebu hynny yn cyrraedd yr holl ddarpar ymgeiswyr.

<u>Meysydd ehangach (y gellid dadlau nad ydynt o fewn cwmpas yr ymgynghoriad ar yr adolygiad o ffioedd)</u>

- Gwnaed sylwadau ynghylch cyhoeddi gwybodaeth; mae ymatebwyr o'r farn y dylid sicrhau bod rhagor o wybodaeth ar gael ar-lein e.e. y cais ei hun ac unrhyw wybodaeth ategol; dylai'r broses AEA fod wedi'i nodweddu gan ddarpariaethau da o ran gwybodaeth i'r cyhoedd a gweithdrefn asesu gwyddonol 'gytbwys' (heb ormod o bwyslais ar ddatblygwyr);
- Gwnaed cais am ffocws ehangach ar ddiwygio'r gyfundrefn trwyddedu morol;
- Byddai rhanddeiliaid yn hoffi cael trafodaeth bellach ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu a phrosesau trwyddedu morol; gwnaed sylwadau penodol am y ffaith bod angen eglurder a symleiddio;

- Nodwyd nad oes proses Weinidogol ar gyfer atgyfeirio ac adfer trwyddedau morol yng Nghymru;
- Nodwyd hefyd ei bod yn bwysig i wneuthurwyr polisi ryngweithio'n uniongyrchol â rhanddeiliaid wrth ddatblygu cynigion.

## 4. Camau Nesaf

4.1 Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Rydym wrthi'n ystyried pob ymateb a byddwn yn cyflwyno cynigion terfynol. Rydym yn awyddus i ddatblygu'r cynigion fel yr ymgynghorwyd arnynt a chânt eu hadolygu'n barhaus.

4.2 Cyflwynir deddfwriaeth er mwyn rhoi'r cynigion ar waith. Y nod yw y daw deddfwriaeth i rym o fis Ebrill 2017, yn ddarostyngedig i'r broses gyfreithiol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyflwyno'r ffioedd a'r taliadau newydd i gwsmeriaid trwyddedu morol ac yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael ar ei wefan. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn: http://gov.wales/?skip=1&lang=cy

**Atodiad 1 - Rhestr o Ymgyngoreion**

| |
|---|
| A W J Marine |
| ABP De Cymru |
| Agma PLC |
| Airbus |
| Alun Griffiths (Contractors) Ltd |
| AMEC |
| Anglesey Boat Company Limited |
| Arup |
| Associated British Ports |
| Cymdeithas y Pysgodfeydd Mewndirol a'r Awdurdodau Cadwraeth |
| Atkins Ltd |
| Ymddiriedolaeth Eogiaid Iwerydd |
| Prifysgol Bangor |
| Bird Port, Casnewydd |
| Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain |
| Ffederasiwn Morol Prydain |
| Cymdeithas Porthladdoedd Prydain |
| Cymdeithas Casglwyr Llaw Cilfach Tywyn |
| Marina Porth Tywyn |
| Cadw |
| Ymddiriedolaeth Harbwr Caernarfon |
| Cymdeithas Dal a Storio Carbon |
| Prifysgol Caerdydd |
| Cymdeithas Pysgotwyr Bae Ceredigion |
| Swyddog ACA Bae Ceredigion |
| Canolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion |
| Carillion |
| Cyngor Sir Caerfyrddin |
| Ffederasiwn Pysgotwyr Sir Gaerfyrddin |
| Canolfan Gwyddorau'r Amgylchedd, Pysgodfeydd a Dyframaethu |
| Cymdeithas Garthu Ganolog |
| Centrica |
| Cyngor Sir Ceredigion |
| Siambr Forgludiant |
| Yr Awdurdod Hedfan Sifil |
| Coastnet |
| Cydffederasiwn Diwydiant Prydain |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Harbwr-Feistr Conwy |
| Costain Cyf |
| Dasic International Ltd |
| Adran yr Amgylchedd, Pysgodfeydd a Materion Gwledig |
| Cyngor Sir Ddinbych |
| Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig, Gogledd Iwerddon |
| Yr Adran Drafnidiaeth |
| Dong Walney (UK) Ltd |
| Dŵr Cymru |

| |
|---|
| E.ON Renewables |
| Ecospan Environmental Ltd |
| English Heritage |
| Asiantaeth yr Amgylchedd |
| Comisiwn y Diwydiannau Amgylcheddol |
| Undeb Amaethwyr Cymru |
| Far Offshore Renewables |
| Fiton Technologies International Ltd |
| Gateway Storage Company |
| Global Marine Systems Ltd |
| Ymddiriedolwyr Harbwr Caerloyw |
| Historic England |
| Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM |
| Trysorlys EM |
| Holyhead Marina Ltd |
| Clwb Hwylio Caergybi |
| Horizon Nuclear Power |
| J Murphy and Sons Ltd |
| Cyd-bwyllgor Gwarchod Natur |
| Llanelli Sand Dredging Limited |
| Swyddog Bioamrywiaeth Lleol - Awdurdodau Lleol yng Nghymru |
| Swyddog Prosiect Ardaloedd Morol Gwarchodedig - Awdurdodau Lleol yng Nghymru |
| Awdurdodau Harbwr Lleol yng Nghymru |
| Awdurdodau Cynllunio Lleol yng Nghymru |
| Swyddogion AOHNEau – Awdurdodau Lleol yng Nghymru |
| Marina Projects Ltd |
| Y Gymdeithas Cadwraeth Forol |
| Marine Energy Matters |
| Marine Energy Pembrokeshire |
| Sefydliad Rheoli Morol |
| Ymgynghorwyr Cynllunio Morol |
| Marine Scotland |
| Marinenet |
| Asiantaeth yr Arfordir a Gwylwyr y Glannau |
| Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn |
| Clwb Mordeithio a Hwylio Monkstone |
| Morgan Sindall |
| Mouchel |
| Mykal Industries Ltd |
| Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr |
| Ffederasiwn Cenedlaethol Sefydliadau'r Pysgotwyr |
| Natural England |
| Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Comisiynwyr Harbwr Castell-nedd |
| NERL Safeguarding |
| Network Rail |
| Neyland Yacht Havens Ltd |
| Cyngor Dosbarth Gogledd Dyfnaint |
| Cyngor Gogledd Gwlad yr Haf |

| |
|---|
| Pwyllgor Pysgodfeydd Gogledd-orllewin Lloegr |
| Npower |
| OFCOM |
| OFGEM |
| Oil & Gas UK |
| Un Llais Cymru |
| Fforwm Arfordir Sir Benfro |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro |
| Yr Arolygiaeth Gynllunio |
| Porthladd Mostyn |
| Porthladd Penrhyn |
| Pulse Tide |
| QinetiQ |
| Quay Fresh and Frozen Foods Ltd |
| Quay Marinas Ltd |
| Ramboll |
| Renewables UK Cymru |
| Cynrychiolwyr Prifysgolion Cymru |
| RNLI |
| Clwb Hwylio Brenhinol Môn |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru |
| Royal Haskoning |
| Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig |
| Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol |
| Grŵp RPS |
| RSPB |
| RWE |
| Comisiynwyr Harbwr Saundersfoot |
| Grŵp Defnyddwyr a Datblygu Gwely'r Môr |
| Awdurdod Diwydiant y Pysgod Môr |
| Partneriaeth Aber Afon Hafren |
| Severn Sands Ltd |
| Cymdeithas Pysgod Cregyn Prydain Fawr |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| St Modwen Developments Ltd |
| Stena Line Ports Ltd |
| Subsea Cables UK |
| Y Fenter Werdd Las |
| Cwmni Porthladd Bryste |
| Ystad y Goron |
| Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol |
| Yr Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt |
| Tidal Energy Limited |
| Tidal Lagoon Power PLC |
| Cyfeillion y Ddaear Torfaen |
| Clwb Hwylio Bae Trearddur |
| Trident Energy Limited |
| Trinity House |
| Pwyllgor Diogelu UK Cable (ICPC) |
| Prif Borthladdoedd y DU a Chymdeithas Porthladdoedd Prydain |
| Cymdeithas Harbwr-Feistri'r DU |

| |
|---|
| Cyswllt Amgylchedd Cymru |
| Ymddiriedolaethau Archeolegol Cymru |
| Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru |
| Cymdeithas Pysgotwyr Cymru |
| Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |
| Awdurdodau Heddlu Cymru |
| Grŵp Porthladdoedd Cymru |
| Cymdeithas Hwylio Cymru |
| Westminster Dredging Company Ltd |
| Y Gronfa Natur Fyd-eang |

**Atodiad 2 - Rhestr o'r Ymatebion**

| |
|---|
| Clwb Genweirio Dyffryn Afan |
| Yr Ymddiriedolaeth Genweirio a Fish Legal |
| Prifysgol Bangor |
| British Marine |
| Cymdeithas Cynhyrchwyr Agregau Morol Prydain (BMAPA) |
| Cymdeithas Porthladdoedd Prydain |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyngor Sir Ddinbych |
| Yr Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) |
| Fish Legal |
| Cyngor Sir Ynys Môn |
| Clwb Mordeithio a Hwylio Monkstone |
| Awdurdod Porthladd Castell-nedd |
| Cymdeithas Genweirio Pontardawe ac Abertawe (PASAS) |
| Clwb Hwylio Porthmadog |
| Y Gymdeithas Hwylio Frenhinol a Cymdeithas Hwylio Frenhinol Cymru |
| RWE Generation UK |
| Grŵp Defnyddwyr a Datblygwyr Gwely'r Môr - SUDG |
| Tidal Lagoon Power |
| Trinity House (Awdurdod Goleudai Cyffredinol GLA) |